# Monitro a darparu gwasanaethau spa gwlyb

## Trosolwg

Mae’r safon yma yn cydfodoli â, **Gweithredu, a chynnal arferion gwaith diogel, glanwaith ac effeithiol**. Mae’r safon yma’n ymwneud â Monitro a darparu gwasanaethau spa gwlyb. Mae cyfleusterau spa gwlyb yn cynnwys cawodydd, cawodydd crai, ystafell ager, therapi pwll thalasso, therapi hydro, therapi arnofiant, pwll plymio, tybiau poeth, profiadau baddoni a bar rhew/caban eira. Bydd gofyn i chi hefyd werthuso ac adfyfyrio ar ôl y gwasanaeth er mwyn ei wella. Bydd angen i ddefnyddwyr y safon yma sicrhau bod eu harferion yn adlewyrchu’r wybodaeth, polisïau, gweithdrefnau a’r canllawiau arferion gorau diweddaraf. Caiff defnyddwyr y safon yma eu cynghori i fod yn ymwybodol o, a chydymffurfio â, gofynion cymorth cyntaf, yn unol â deddfwriaeth a pholisïau a gweithdrefnau, i gynnwys ymateb cymorth cyntaf mewn argyfwng pe byddai yna ddigwyddiad niweidiol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cadw at eich cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch yn unol â deddfwriaeth, rheoliadau, cyfarwyddebau a chanllawiau, i gynnwys:

1.1 paratoi a chynnal a chadw’r **cyfleusterau spa gwlyb** yn unol â chyfarwyddiadau’r gwneuthurwr.

1.2 cyfarwyddo gweinyddion y spa ynghylch glanhau ac atgyflenwi adnoddau er mwyn sicrhau'r effeithlonrwydd gorau

1. gwneud ymgynghoriad cryno a chynhwysfawr gyda'r unigolyn er mwyn penderfynu addasrwydd ar gyfer y cyfleusterau spa gwlyb

3. 3.rhoi cyflwyniad i’r unigolyn ar gyfer defnyddio’r cyfleusterau’r spa gwlyb yn unol â’r **protocol gwasanaeth spa gwlyb** i gynnwys:

3.1 y manteision, y defnydd y gellir ei wneud ohonynt a'r cyfyngiadau

.4. cadarnhau a chytuno gyda'r unigolyn, eu bod wedi deall y gwasanaeth spa arfaethiedig, i gynnwys:

4.1 canlyniadau disgwyliedig
4.2 gwrth-weithredoedd

4.3 **adweithiau niweidiol**
4.4 ymdeimlad corfforol

5. sicrhau a chofnodi cydsyniad gwybodus gan yr unigolyn ar gyfer y gwasanaeth spa gwlyb

1. rhoi **cyfarwyddiadau** a chyngor i'r unigolyn, cyn ac ar ôl y gwasanaeth spa gwlyb

7. cyfarwyddo'r unigolyn i gymryd cawod, cyn defnyddio'r cyfleuster spa gwlyb

1. cyfeirio'r unigolyn i'r spa gwlyb i gynnwys:

8.1 dangos iddo/iddi'r cyfarwyddiadau a'r peryglon cysylltiedig

1.
monitro iechyd a lles yr unigolyn drwy gydol y gwasanaeth spa gwlyb

2.
gweithredu'r camau cywir os bydd yna adwaith niweidiol
3.
cwblhau cofnod gwasanaeth spa'r unigolyn yn unol â deddfwriaeth data
4.
defnyddio ymarfer adfyfyriol i werthuso gwasanaeth y spa a chymryd camau priodol

13. dod â’r gwasanaeth spa i ben drwy gau’r cyfleuster spa i lawr a’i ddadheintio yn unol â’r protocol gwasanaeth spa gwlyb

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. eich swyddogaeth a'ch cyfrifoldebau o ran monitro a darparu cyfleusterau spa gwlyb a'r pwysigrwydd o weithio o fewn eich galluogrwydd

2. pam bod yn rhaid i chi gydymffurfio gydag arfer foesegol a gweithio o fewn gofynion deddfwriaethol, i gynnwys:

2.1 y cyfrifoldebau o dan reoliadau trwyddedu yr awdurdod lleol 3. pwysigrwydd ymwneud â, a dogfennu datblygiad proffesiynol parhaus, i gynnwys, polisïau gwybodaeth wedi eu diweddaru, gweithdrefnau a chanllawiau ar gyfer arfer orau

1.
yr **anatomeg a'r ffisioleg** sy'n berthnasol i'r safon yma
2.
y gwrtharwyddion cymharol a llwyr sy'n berthnasol i wasanaethau spa gwlyb, i gynnwys:

5.1 y gofynion deddfwriaethol ac yswiriant ar gyfer cael diagnosis meddygol a chyfeirio

1. y mathau o, diben, defnyddioldeb a chyfyngiadau at gyfleusterau spa gwlyb mewn perthynas â:

6.1 gweithgareddau neu driniaethau diweddar a all gyfyngu ar y gwasanaeth

6.2 hanes meddygol diweddar a chyfredol

6.3 ffactorau perthnasol yn ymwneud â'r ffordd o fyw

6.4 meddyginiaethau a chyflyrau meddygol
6.5 cefndir diwylliannol a hanes

7. yr adweithiau niweidiol sy'n gysylltiedig â gwasanaethau spa gwlyb a sut i ymateb

1.
y cyfrifoldebau am iechyd a diogelwch yn unol â deddfwriaeth cyn, yn ystod ac ar ôl y gwasanaeth spa gwlyb
2.
pwysigwrydd glanhau ac atgyflenwi adnoddau o fewn cyfleusterau spa gwlyb, i gynnwys:

9.1 sut, pryd a pham y gellir dirprwyo dyletswyddau glanhau i weinyddion y spa

10. sut i baratoi, cynnal a chadw a chau cyfleusterau spa gwlyb yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a gofynion cyfundrefnol a deddfwriaethol i gynnwys:

10.1 dadheintio

10.2 profi lleithder
10.3 profi dŵr

10.4 pennu tymereddau gweithredol wedi eu hargymhell

1.
sut i gwblhau a dehongli profion gyda'ch lefel o arbenigedd a sut i ymateb
2.
pwysigrwydd gwybod i bwy i adrodd am broblemau sydd y tu allan i rychwant eich arbenigedd chi
3.
pam ei bod yn bwysig i drafod a darganfod amcanion, pryderon, disgwyliadau, y canlyniadau a chytuno ar gynllun gwasanaeth y spa
4.
y strwythurau tâl ac opsiynau gwasanaeth
5.
y gofynion deddfwriaethol a digollediad ynglŷn â sicrhau cydsyniad gwybodus am y gwasanaeth spa
6.
pwysigrwydd cadw at y protocol gwasanaeth spa gwlyb

17. rhesymau pam dylai’r unigolyn gael cawod, cyn y gwasanaeth spa gwlyb

1.
pam ei fod yn bwysig ymgyfarwyddo unigolyn, cyn defnyddio'r cyfleusterau spa gwlyb
2.
argymhellion ynglŷn â pha mor hir ddylai gwasanaethau spa gwlyb barhau, yn unol â'r protocol gwasanaethau spa a chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, i gynnwys:

19.1 peryglon cysylltiedig o ddefnydd gormodol

1. pwysigrwydd monitro iechyd a lles yr unigolyn yn ystod, ac ar ôl y gwasanaeth spa gwlyb

21. y gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol ynglŷn â chwblhau a chadw cofnod gwasanaeth spa gwlyb yr unigolyn

1.
canlyniadau disgwyliedig y gwasanaethau spa gwlyb
2.
diben ymarfer adfyfyriol a gwerthuso er mwyn gwella darpariaeth y gwasanaeth
3.
y cyfarwyddiadau a'r cyngor, cyn ac ar ôl y gwasanaeth spa gwlyb

## Cwmpas/Ystod